| **Cyfeirnod Rhif Tyst** | **O – i** | **Nodwyd mewn Tystiolaeth Defnydd** |
|---|---|---|
| 12 | 1975 – Presennol (2021) | ‘’Ewch heibio i’r Antelope ac ychydig cyn i chi fynd dros y bont trowch i’r chwith a dilynwch y ffordd heibio ystâd ddiwydiannol fach, ac yna drwy ddau biler carreg fach. Dilynwch y ffordd drwy’r coetir, ewch heibio i’r Gerddi Botaneg a mynedfa’r trac Athletau a pharhewch dros bont y rheilffordd cyn cyrraedd ysgol Treborth. Parhewch cyn gadael drwy’r Golf Drive yn Treborth Road.’’ |
| 16 | 2015 - 2021 | Pan fyddaf yn mynd am dro ar y llwybr troed hwn, fel arfer byddaf yn cychwyn o fy nghartref ac yn anelu at gaeau'r ‘brewers’ a Thafarn yr Antelope. O fan hyn, byddaf yn parhau trwy erddi botanegol Treborth ac yn troi ychydig i'r chwith i fynd dros bont reilffordd. I'r dde o fan hyn mae trac athletau ger y llwybr troed. Byddwn yn dilyn y ffordd fach i lawr heibio'r tai ar y chwith ac mae'r lôn yn troi ychydig i'r dde i fynd o flaen yr hen ysgol. O fan hyn, byddaf yn dod allan o dir yr ysgol heibio clwb pêl-droed Penrhosgarnedd i'r dde ac yn parhau i lawr y lôn. Hanner ffordd i lawr y lôn mae'r llwybr troed cyhoeddus arall yn ymuno â'r lôn. Yna daw'r lôn i gyffordd sy'n cwrdd â Lôn Treborth. O fan hyn, rwy'n gwneud fy ffordd yn ôl adref. |
| 18 | 1976 - 2021 | ‘’Y ffordd sy’n arwain o Drovers Inn ac ysgol Treborth sy’n arwain at yr Antelope.’’ |
| 19 | 1976 - 2021 | ‘’Y ffordd sy’n arwain o Drovers Inn ac ysgol Treborth sy’n arwain at yr Antelope.’’ |
| 20 | 1989 – Presennol (2021) | |
| 21 | 1975 - 2021 | “Llwybr yn arwain o fynedfa Tafarn Antelope i ffordd Gerddi Treborth sy’n arwain heibio Ysgol Treborth (fel yr oedd) allan wrth Drovers Inn.’’ |
| 23 | 1988 - 2005 | ‘’O’r Antelope, heibio planhigfa’r Brifysgol dros bont y rheilffordd, heibio hen ysgol Treborth ac allan wrth ‘driving range’ Treborth’. |
| 26 | 1940 - 2020 | ‘’Rwy’n 83 oed, wedi fy ngeni ym Mhenrhos ac yn dal i fyw’n lleol. Rwyf wedi defnyddio’r ROW drwy gydol fy mywyd. Mae angen y ROW arnom drwy Fferm Treborth i fynd i Borthaethwy…’’ |
| 42 | 1997 – Presennol (2021) | ‘’Mae’r llwybr fel y’i nodir ar y map amgen o’r briffordd, i lawr heibio’r hen ysgol i gyfeiriad gerddi Treborth ac yna ymlaen i Bont Menai.’’ |
| 51 | 1980 - 2020 | ‘’Mae'r llwybr yn cychwyn o'r ffordd fawr ac yn mynd heibio maes carafanau Treborth Mews ar y dde. Parhewch ar hyd y trac gan fynd heibio i'r clwb pêl-droed ar y chwith. Mae'r trac yn arwain rownd i'r dde gan fynd heibio blaen hen ysgol Treborth. Mae trac |

| | | |
|---|---|---|
| | | bach tu ôl i'r coed ger hen ysgol Treborth, ond mae'r trac yma wedi gordyfu ers tro. Rwy'n gwybod am rai pobl sy'n ei ddefnyddio a minnau hefyd weithiau, ond rwyf yn mynd o flaen yr ysgol yn bennaf. Nid yw'r trac arall yn neis iawn yn y gaeaf. Oddi yma ewch ymlaen dros y bont a thrwy'r gerddi. O'r fan hon anelaf tuag at dafarn yr Antelope ac yn ôl drwy Lon Dywyll/Lon Mennai.'' |
| 57 | O enedigaeth (25/4/88)<br>Rwan – ac yn parhau. | ''Trowch oddi ar brif ffordd Treborth heibio i hen faes hamdden Treborth (gan gynnwys y maes ymarfer corff). Mae'r map cyfredol yn dangos hawl tramwy, dim ond hanner ffordd i lawr tuag at hen ysgol Treborth. Mae'r hawliad hwn ar gyfer yr hawl tramwy i fynd yr holl ffordd heibio i'r ysgol, i lawr heibio i'r trac athletau ac o gwmpas nes bod y ffordd/llwybr yn ailymuno â'r brif ffordd ger Porthaethwy.'' |
| 80 | 1971/80 - 2021 | "Mae'r llwybr troed yn dechrau o dan bont Menai drwy basio Tafarn yr Antelope. Yna mae'r llwybr troed yn mynd drwy'r gerddi botanegol ac yn troi ychydig i'r chwith dros bont y rheilffordd. Wrth ymyl fan hyn mae'r trac athletau. Ar ôl mynd dros y bont, ewch yn syth ymlaen heibio'r tai ar y chwith a dilynwch y lôn o gwmpas. Mae'r lôn rhwng yr hen ysgol a rhywfaint o laswellt. Y tu ôl i'r glaswellt mae ychydig o goed, dyma lwybr rydw i wedi arfer cerdded arno weithiau hefyd, yn enwedig pan fydd llawer o geir wedi'u parcio o flaen yr ysgol. Mae'r lôn yn gadael tir yr ysgol ac yn pasio'r clwb pêl-droed ar y dde. Mae'r llwybr yn parhau i lawr y lôn fach, heibio'r cwrs golff nes i chi gyrraedd y gyffordd â Lôn Treborth." |
| 85 | Ionawr 2021 – Presennol (2021) | Mae'r llwybr yn cychwyn o ffordd Treborth yr A487 sy'n arwain i lawr lôn heibio i stablau Treborth ac yn troi i'r chwith trwy giât. Mae'r llwybr yn parhau tuag at ysgol Treborth ac yn mynd ar hyd blaen yr ysgol ac yn mynd heibio rhes o dai ar y dde. Yna mae'n parhau dros bont y rheilffordd gan fynd heibio mynedfa i'r ganolfan cae a thrac a thrwy erddi botanegol Treborth wrth y ffordd yr holl ffordd i Bont Menai. |
| 98 | 1982 – Presennol (2021) | ''Y llwybr o ffordd Treborth heibio'r cwrs golff, i ddilyn y ffordd tuag at y gyn-ysgol, ar hyd y llwybr heibio'r ysgol ac i lawr dros bont y rheilffordd i'r tai gwydr a gerddi Treborth drosodd at bont Menai.'' |
| 99 | 1982 – Mawrth 2021. | ''O ffordd Treborth, i lawr i'r ysgol ac ar hyd y llwybr i bont y rheilffordd ac ymlaen heibio i erddi'r brifysgol i bont Menai.'' |
| 109 | 1995 – Presennol 2021 | ''Llwybr sy'n mynd heibio hen ysgol Treborth – yn cychwyn wrth gaeau pêl-droed ieuenctid Penrhosgarnedd ac yn mynd dros bont reilffordd i erddi botanegol Treborth, ac ymlaen i bont Menai.'' |

| | | |
|---|---|---|
| 110 | 1991 – Dyddiad Presennol (2021) | ‘’Fel arfer byddaf yn cychwyn fy nhaith gerdded o fy nghartref ac yn mynd i gyfeiriad Ffordd Tŷ'n Clwt ac yna priffordd Treborth gan deithio i gyfeiriad Ffordd Caergybi. Ar ôl hyn, byddaf yn mynd ar hyd y llwybr cerdded trwy Erddi Botanegol Treborth a throi i'r chwith ychydig i fynd dros bont y rheilffordd nes troi rhywfaint i'r dde i lawr trac bychan a thrwy ychydig o goed. Mae'r trac yn mynd heibio hen ysgol Treborth ar y chwith. Rwyf yn parhau gan fynd yn syth heibio Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd ar y dde a heibio'r safle carafanau a'r maes golffio nes cyrraedd y briffordd ac yna byddaf yn mynd am adref.’’ |
| 113 | 1990 – Presennol (2021) | ‘’Rwyf wedi cerdded llwybr cylchol heibio’r hen ysgol i lawr i Britannia neu Bortaethwy yn wythnosol ers 30 mlynedd ac nid oedd gennyf unrhyw syniad bod tir preifat yn gysylltiedig. Byddaf yn parhau i gerdded y llwybr hwn cyhyd ag y gallaf.’’ |
| 124 | 1989 – Presennol (2021) | ‘’…Mae’r llwybr cyhoeddus yn parhau dros bont y rheilffordd a throsodd i drac Athletau Treborth i’r dde. Yn y fan hon, mae’r llwybr cyhoeddus yn parhau naill ai:- parc busnes Treborth a’r A5 ym Mhont Menai neu’n parhau’n syth ar hyd llwybr troed drwy’r gerddi botanegol sy’n cysylltu’r llwybr arfordirol cenedlaethol.’’ |
| 130 | 1990 - 2020 | ‘’Mae'r llwybr yn cychwyn ger y brifysgol ac yn parhau ymlaen dros yr hen bont reilffordd. O’r fan hon, gallwch unai fynd ar y ffordd darmac o flaen y tai ar y chwith neu ar y trac sy’n arwain drwy’r coed ar y dde. Fel arfer byddwn i’n mynd ar y trac sy’n rhedeg drwy’r coed ond os yw’n wlyb ac yn fwdlyd, byddwn yn cerdded ar y tarmac. Mae'r llwybr wedyn yn dod heibio o flaen Ysgol Treborth ac yna byddwch yn parhau i fynd heibio Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd. Mae'r llwybr yn parhau i lawr ychydig a byddwch yn gweld mynedfa y llwybr troed arall. O'r ffordd mae giât sydd wedi'i chloi ond mae man pasio ar yr ochr i gerddwyr. Mae'r ffordd yn parhau i'r brif ffordd sy'n gyfagos i hen dafarn y Drovers.’’ |
| 133 | 1967 – Presennol (2021) | ‘’O gyfeiriad yr Antelope, drwy’r coed a phasiwch yr ardd fotaneg dros bont reilffordd a naill a’i ar y trac neu lôn basio ysgol Treborth (yn dibynnu ar y tywydd a chyflwr y trac) yn ôl i’r lon fawr pasio’r mews.’’ |
| 136 | 2005 - 2019 | ‘’Byddai fy nhaith gerdded yn cychwyn o’m cartref, ac yna byddwn yn cerdded dros Bont Borth ac yn troi i’r chwith i Feithrinfeydd Treborth. Ar ôl cerdded trwy’r meithrinfeydd, mae’r llwybr troed yn troi i’r chwith ger y trac athletau ac yna dros bont reilffordd. Mae’r llwybr troed yn parhau ar y ffordd darmac heibio rhai tai a heibio blaen Neuadd Treborth. O’r fan hon, mae’r llwybr troed yn parhau ar y ffordd darmac, gan basio |

| | | |
|---|---|---|
| | | clwb pêl-droed Penrhosgarnedd a pharhau'n syth, gan basio'r hen faes gwersylla cyn i'r lôn gyrraedd cyffordd Ffordd Treborth. Mae'r llwybr troed hwn yn rhan o gylchdaith, ac rwy'n cerdded adref trwy gerdded ar y palmant yn Ffordd Treborth i Dafarn yr Atelope, dros y bont, ac yn ôl adref. Byddai'r gylchdaith hon yn cymryd tua awr a hanner i ddwy awr.'' |
| 140 | 1994 – 2001- Wythnosol<br><br>2001 - Presennol – Misol.<br>2010 - 2020 – Wythnosol. | ''Rhwng 1994 a 2001 roedden ni'n byw yn 18 Heol Ffriddoedd ac fel cerddwyr brwd, roedden ni'n defnyddio'r rhan hon o'r llwybr fel Mynediad i Ardd Fotaneg Treborth ac yn cerdded ar hyd y darn hwnnw o leiaf unwaith yr wythnos. Ar ôl 2010 pan symudodd ein merch i Gareg Wen, Treborth, roedden ni'n defnyddio'r rhan hon o'r ffordd o leiaf unwaith yr wythnos wrth ofalu am yr wyrion. Yn ddelfrydol ar gyfer Mynediad gyda phramiau i Ardd Fotaneg a Phorthaethwy.'' |
| 151 | 1983 – Heddiw (2021) | Y ffordd o Borthaethwy drwy erddi Treborth heibio ysgol Treborth a'r ganolfan golff bresennol i fyny at yr A487 ger "Hen Drovers''. |
| 152 | 2008 – 2021 | ''Rwy'n mwynhau gwneud y dro hon fel rhan o gylchdaith gan gychwyn o fy nghartref ym Mhenrhosgarnedd a gwneud fy ffordd fyny i Lon Treborth. Wrth i mi groesi'r ffordd, rwy'n cerdded i mewn i gyffordd ac yn mynd i lawr lôn fach. Wrth i mi gerdded i lawr y lôn rwy'n pasio'r maes golff ar y chwith. Mae'r lôn yn parhau am ychydig cyn mynd i dir yr ysgol. Dyma lle mae'r lôn yn dilyn trwodd, gan fynd heibio Neuadd Treborth ac yn parhau dros yr hen bont rheilffordd. Mae'r llwybr troed yn mynd heibio'r trac rhedeg ar y chwith ac yn troi ychydig i'r dde i fynd drwy Erddi Botaneg Treborth. Rwy'n cerdded drwy'r gerddi tuag at Lwybr Arfordir Cymru gan anelu at bont Menai. Ar ôl cyrraedd Pont Menai, fyddaf yn cerdded ar y palmant ac yn ôl adre.'' |
| 153 | 1991 – Heddiw (2021) | ''Y ffordd o Borthaethwy drwy erddi Treborth (prifysgol) ac ymlaen heibio hen ysgol Treborth a dilynwch y llwybr i fyny at yr A487 gyferbyn ar ''Yr Hen Drovers''. |
| 169 | 1989 – 2019 | ''…Ar ôl i ni symud i lawr i Fangor uchaf, rydyn ni'n cerdded i Dreborth ac yn ôl i'r briffordd gan basio'r Antelope.'' |
| 174 | March 2020 – Mawrth 2021 | ''Cerddwch o Bont y Borth, heibio i erddi Treborth, heibio i ysgol Treborth ac i fyny tuag at ffordd Treborth.'' |
| 175 | March 2020 – Mawrth 2021 | "Cerddwch o Bont y Borth, heibio i erddi Treborth, heibio i ysgol Treborth ac i fyny tuag at ffordd Treborth (A487).'' |

| | | |
|---|---|---|
| 183 | 1989 – Dyddiad presennol (2021) | ''…Roeddwn i'n arfer byw ym Mhenrhosgarnedd, Bangor, ac yn defnyddio'r llwybr hwn fel taith hamddenol o Benrhosgarnedd i Borthaethwy, gan ymweld â ffrindiau ar y ffordd. Rydw i nawr yn byw ym Mhorthaethwy ac yn ei ddefnyddio i'r cyfeiriad arall…'' |
| 184 | 2019 - 2021 | ''Cwblhewch y cylch: Llwybr yn mynd o dafarn yr Antelope, heibio Gerddi Treborth dros y bont reilffordd, heibio Neuadd Treborth a dychwelyd i'r A487.'' |
| 186 | 1998 - 2021 | ''Rwy'n troi i lawr wrth y brif ffordd Treborth, y trac sy'n arwain i lawr Neuadd Treborth, rwy'n aros ar y trac/ffordd gan basio Neuadd Treborth dros y bont reilffordd ac yn pasio gerddi botanegol, heibio i westy Treborth, a thuag at Bont Menai.'' |
| 193 | 2001 – Presennol (2021) | ''O gyfeiriad yr A487, ar ôl pasio cwrs golff Treborth a gwersyll mews Treborth, mae'r llwybr yn mynd heibio i Glwb Pêl-droed Penrhosgarnedd ac o flaen hen Ysgol Treborth, yna'n croesi pont reilffordd ac yn mynd trwy erddi Prifysgol Bangor tuag at Bont Borth. Mae'n llwybr addas a diogel i feicwyr a cherddwyr gan nad oes llawer o draffig.'' |
| 194 | | ''Pan fyddaf yn cerdded y llwybr troed hwn, byddaf fel arfer yn cychwyn o fy nghartref ac yn cerdded i lawr i gyfeiriad Pont Mennai. Ar ôl hyn, dwi'n cerdded drwy'r gerddi botanegol a throi i'r chwith ychydig i fynd dros yr hen bont rheilffordd, heibio rhai tai ar y chwith ac ar y darn tarmac sy'n mynd o flaen y plas dy. Ar ôl mynd heibio'r plas dy, mae'r trac yn troi i'r chwith ychydig ac yn parhau i fynd heibio'r clwb pêl-droed ar y dde. Parhaodd y llwybr troed i lawr trac cerrig tuag at y ffordd fawr ger Penrhosgarnedd. Byddwn fel arfer yn mynd yn ôl yr un ffordd.'' |
| 195 | 1973 - 2021 | ''…Yn aml, roeddwn i'n cerdded o gyfeiriad Pont Menai tuag at yr ysgol, neu drwy gerdded o'r cyfeiriad arall heibio Hamdden Treborth.<br>Roeddwn i'n ysgrifennydd Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd 2009-2011 ac felly roeddwn i'n aml yn cerdded draw i adeiladau'r Clwb wrth ymyl yr ysgol yn ystod yr amser hwn i wirio cyflwr y caeau ar yr adeiladau. Parciais ger yr ardd fotaneg a cherdded i fyny at yr ysgol o gyfeiriad Pont Menai…'' |